CYNGOR BRO LLANLLWNI

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 13 Mai 2019 am 8.00yh.
Cyflwynwyd mantolen am y flwyddyn Ebrill 2018 – Mawrth 2019, ac arwyddwyd y ffurflenni priodol sef Rheloau Sefylog a Chŏd Ymddygiad gan y Cadeirydd.

Cynhaliwyd y cyfarfod arferol am 8.30yh.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod gan estyn llongyfarchiadau i Dewi Davies ar ddathlu ei benblwydd yn 80 oed ddechrau'r mis. Llonyfarchwyd CFFI Llanllwni ar ennill y rali yng Nghaerfyrddin dros y penwythnos.

AGENDA
Roedd y Clerc wedi rhoi poster yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.

Y CAE CHWARAE
Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae.
Yr oedd Cyngor Sir Gâr wedi archwilio'r adnoddau chwarae.
Penderfynwyd gan yr aelodau y byddai'r Clerc yn llogi toiled a fyddai'n cynnwys cyfleusterau newid plant o ddydd Sadwrn 06/07/2019 tan nos Sul 07/07/2019 yn ystod y diwrnod hwyl a fyddai'n cael ei gynnal ar y cae ddydd Sul 07/07/2019.
Roedd angen ffensio o amgylch y cae chwarae ac yr oedd Eric Davies a Dewi Davies yn mynd i edrych faint o ddefnyddiau byddai eu hangen yn ystod y dyddiau nesaf.

GWEFAN LLANLLWNI
Roedd adroddiad o gyfarfod mis Mawrth ar y wefan; byddai'n ymddangos yn y rhifyn nesaf o 'Clonc' a 'Clecs Bro Cader.'

Penderfynwyd cefnogi
Gwyl Cerdd Dant Llanelli a'r Cylch 2019; Therapi Ocsigen Aberteifi; Ysgol Gynradd Llanllwni
Urdd Sir Caerfyrddin 2021.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf. Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 08 Gorffennaf 2019 am 8.00yh.